# <u>Hysbysiad o Gwneud</u>

## WEPRE LANE, PARC FIELD, CEI CONNAH

## GWAHARDDIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 18 Awst 2026 drwy arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013, i:-

1. Gyflwyno cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’:-

a. Yng nghyffordd Parc Field gyda Wepre Lane, Cei Connah.
b. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Wepre Lane, Cei Connah.

Ym mhob ffordd arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodaeth Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013’ yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 04 Medi 2026, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros wneud y Gorchymyn, gellir eu harchwilio yn ystod oriau agor arferol Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HA. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Os ydych chi’n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
yr Wyddgrug
CH7 6LG.
Dydd Gwener 21 Awst 2026.

DYDDIEDIG 18 AWST 2026

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# WEPRE LANE, PARC FIELD, CEI CONNAH (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 74) 2026

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd Yr Wyddgrug Alltami,
Yr Wyddgrug, CH7 6LG

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**WEPRE LANE, PARC FIELD, CEI CONNAH**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**
**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 74) 2026**

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 04 Medi 2026 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir y Fflint, WEPRE LANE A PARC FIELD, CEI CONNAH (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 74) 2026.

2. O'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod ymlaen, bydd Atodlen Map AT78 Diwygiad Taflen Rhif 3 yn disodli Atodlen Map AT78 Diwygiad Taflen Rhif 2, yn y drefn honno, a'r holl atodlenni map eraill gyda'r atodlenni map a'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn Atodlen y Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**Dim Aros ar Unrhyw Adeg**
**Cei Connah**

| Road Name | Map Schedule | Sheet Revision |
|---|---|---|
| Wepre Lane | AT78 | 3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013) |
| | AT79 | 1 |
| Parc Field | AT78 | 3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013) |
| | AT79 | 1 |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 18 diwrnod hwn o Awst 2026 )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~

## WEPRE LANE, FIELD PARK, CEI CONNAH

## GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG AR AROS AR UNRHYW ADEG

### Dim Aros Ar Unrhyw Adeg

### Datganiad o resymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig cyflwyno cyfyngiadau Dim Aros Ar Unrhyw Amser (llinellau melyn dwbl) ar y ffyrdd a restrir uchod.

Bwriedir i'r cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg arfaethedig fynd i'r afael â pharcio anystyriol ar y brif gerbytffordd wrth ddefnyddio cyfleusterau Parc Gwepra. O ganlyniad i'r cyfyngiadau llinellau melyn dwbl, mae cerbydau a arferai barcio ar hyd y rhan hon o'r ffordd bellach wedi gorfod symud ymhellach i fyny'r ffordd. O ganlyniad, mae cerbydau'n parcio'n agos at ac ar draws gyffordd Field Parc, gan achosi rhwystr, gwelededd is, a risgiau diogelwch posibl i yrwyr a cherddwyr. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar lif y traffig a diogelwch y gyffordd, yn arbennig yn ystod cyfnodau prysur.

Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn yno neu beidio, yn drosedd ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau'n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gall hynny gael ei ystyried yn drosedd ac felly byddai'n destun camau gorfodi gan Heddlu Gogledd Cymru. At hynny, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallant achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau arfaethedig yn anelu at sicrhau bod perygl yn cael ei leihau i ddefnyddwyr ffordd agored i niwed yn ogystal ag i wella amwynderau'r ardal.

**Mae'r cynigion yn cael eu manylu yn y Hysbysiad Cyhoeddus a'r Gorchymyn arfaethedig.**

KWilby

Katie Wilby,
Chief Officer (Streetscene and Transportation),
Alltami Depot, Mold Road, Alltami, Mold. CH7 6LG.

Dydd Gwener 20 Chwefror 2026.

AREA CODE:AT78
COD ARDAL:AT78

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 3
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3

Sheet active from: 04 September 2026
Dalen yn weithredol o: 04 Medi 2026




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 74) Order 2026

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 74) 2026

Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE:AT79
COD ARDAL:AT79

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 1
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 1

Sheet active from: 04 September 2026
Dalen yn weithredol o: 04 Medi 2026




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 74) Order 2026

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 74) 2026


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF




# KEY

| | |
|---|---|
| (orange line) | Dim Aros Ar Unrhyw Adeg<br>No Waiting at Any Time restrictions. |
| (grey line) | Presennol Dim Aros Ar Unrhyw Adeg<br>Existing No Waiting at Any Time restrictions. |


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.


| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|


CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

Streetscene

Alltami Depot, Mold Road Alltami, Mold. CH7 6LG
Depot Alltami, Ffordd Yr Wyddgrug
Alltami, Yr Wyddgrug CH7 6LG


Project:

# No Waiting at Any Time Restrictions
# Wepre Lane and Field Park

## Connahs Quay

## Sheet 1 of 1


Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: | Ruth Tulley | Telephone: | 01352 70xxxx |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 |
| Checked by: | Ruth Tulley | Date: | Sheet 1 of 1 |


| Scales at A1: | Drawing No: | Phase/Rev: |
|---|---|---|
| 1:NTS | HT/25/0000/101 | C1 |